Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 30.09.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# BWYD A DIOD: Da iawn tafarn y Black Boy ac Antur Waunfawr

Mae'n wych bod dau fusnes lleol, Tafarn y Black Boy yng Nghaernarfon a'r fenter gymdeithasol, Antur Waunfawr, yn cael sylw cadarnhaol gan y wasg gyda'u cydweithrediad. I ddarllen y stori, ewch i:

https://nation.cymru/news/black-boy-inn-caernarfon-antur-waunfawr-perllan-y-fro/

Gall Pecyn Cymorth Twristiaeth Bwyd, a gyhoeddwyd gan Croeso Cymru a Bwyd a Diod Cymru, helpu busnesau

lletygarwch i hyrwyddo hynodrwydd cynnyrch lleol, ac mae ar gael ar:

https://bit.ly/3E574pL

- Rhowch wybod i ni am fwy o enghreifftiau o fusnesau lleol yn cydweithio drwy gysylltu â ni ar: PrynuLleol@gwynedd.llyw.cymru

# ARIANNU: Ehangu cymhwysedd cynllun Benthyciadau Cychwyn

Mae cynllun gan Lywodraeth y DU i gefnogi busnesau bach wedi cael ei ehangu. Mae benthyciadau cychwyn o hyd at £25,000 bellach ar gael i fusnesau newydd sydd wedi bod yn masnachu ers hyd at 3 blynedd, ac mae 'ail fenthyciadau' newydd ar gael i fusnesau sydd wedi bod yn masnachu am hyd at 5 mlynedd. Am ragor o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3y3SRpp

Gall Banc Datblygu Cymru hefyd helpu busnesau gael y cyllid angenrheidiol i gychwyn, cryfhau a thyfu, ewch i:

https://developmentbank.wales/cy

# DIGWYDDIADAU: HWB Menter

Mae gan HWB Menter @M-SParc nifer o weithdai am ddim ar y gweill yn ystod yr wythnosau nesaf, ar-lein ac mewn person. I ddarganfod mwy am ddatblygu brand, hanfodion cychwyn busnes, defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a mwy, ewch i:

https://www.eventbrite.co.uk/o/enterprise-hub-m-sparc-18672473725

# RECRIWTIO: Ffair Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd – Prifysgol Bangor 26 Hydref 2022

Mae Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes ym Mhrifysgol Bangor yn cynnal Ffair Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn Neuadd Prichard Jones ar 26 Hydref 2022 (12:00pm-3:00pm). Bydd cyfle i fusnesau hyrwyddo swyddi gwag, cynlluniau i raddedigion, profiad gwaith a chyfleoedd lleoliad i israddedigion a myfyrwyr Meistr sy'n astudio ystod o bynciau. Os hoffech arddangos yn y ffair, gallwch gofrestru ar:

https://bit.ly/3US4yJy

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:

Nerys Boggan: 01248 382009 / CAHBemployability@bangor.ac.uk

# DIGWYDDIAD: Gŵyl Cymru Festival

Mae cymunedau, clybiau pêl-droed, sefydliadau celfyddydol a lleoliadau yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o Gŵyl Cymru Festival, digwyddiad 10 diwrnod yn dechrau ar 19 Tachwedd 2022, fydd yn uno cymunedau ar hyd a lled Cymru wrth i'r genedl gefnogi tîm pêl-droed dynion Cymru yn eu hymgyrch Cwpan y Byd FIFA 2022. Gellir hyrwyddo digwyddiadau creadigol sy'n cael eu cynnal rhwng 19 Tachwedd 2022 a 29 Tachwedd 2022 fel rhan o Gŵyl Cymru Festival, eu cynnwys mewn cyfeirlyfr digwyddiadau cenedlaethol a chael mynediad at becyn brand ac asedau cyfryngau cymdeithasol Gŵyl Cymru i hyrwyddo'r digwyddiad. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://gwyl.cymru/cy/

# CYFLE: Cyflymydd Ynni Glân TechX

Mae ceisiadau ar agor ar gyfer Cyflymydd Ynni Glân TechX, fydd yn cefnogi hyd at 12 o fusnesau newydd arloesol ym maes ynni glân. Mae'r Cyflymydd yn rhaglen ddwys 15 wythnos, gyda

buddion sy'n cynnwys grant o hyd at £100,000 a chymorth arbenigol gan bartneriaid, mentoriaid a chysylltiadau yn y diwydiant. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 11:00pm ar 9 Hydref 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.netzerotc.com/techx-accelerator/clean-energy-accelerator/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru